

Academic & Student Support Services

Academic Registrar

Simon Wright LLB

*Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr*

*Cofrestrwydd Academaidd*

*Simon Wright LLB*



**Anfonwyd dros e-bost i [e.price@abertawe.ac.uk](mailto:e.price@abertawe.ac.uk)**

**03 Rhagfyr 2015**

Annwyl Dr Price,

**Ynghylch: Ymateb Sefydliad: Adroddiad Blynyddol Arholwyr Allanol 2014 – 2015**

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ôl derbyn eich Adroddiad Arholwr Allanol ar gyfer y cwrs BA mewn Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol / Newyddiaduraeth a Diwylliant / Newyddiaduraeth a Chyfathrebu / y Cyfryngau a Chyfathrebu (modiwlau Iaith Gymraeg).

Mae'r Ysgol wedi ystyried eich Adroddiad yn unol â'n gweithdrefnau cymeradwy. Rwyf bellach, felly, mewn sefyllfa i ymateb ar ran yr Is-Ganghellor i'r prif bwyntiau a godwyd gennych.

**Materion y tynnwyd sylw atynt:**

1. Eich sylwadau manwl am natur y traethodau a gaiff eu gosod;
2. Eich sylwadau am farcio a chywiro iaith;
3. Eich cais am ragor o wybodaeth am y broses o farcio am yr eildro;
4. Eich cais am fynediad at enghreifftiau o waith ar yr un lefel yn narpariaeth Saesneg yr Ysgol, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws lefelau ac ar draws ieithoedd;
5. Eich argymhelliad y dylid anfon llawlyfr y cwrs at olygydd neu at rywun i'w brawf ddarllen, a'r sylwadau cysylltiedig.

**Darparwyd yr ymateb canlynol ar ran yr Ysgol:**

1. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Dr Elain Price am ei harchwiliad trylwyr o fodiwl iaith Gymraeg cyntaf erioed yr Ysgol, Yr Ystafell Newyddion. Rydym wedi trafod hyn, a byddwn yn gosod cwestiwn llawer mwy penodol ym mhob modiwl, oherwydd bydd dau fodiwl ar wahân (y ddau werth 20 credyd, lefel 5, mewn dau semester) ar draws y flwyddyn.
2. Rydym wedi ystyried y mater sy'n ymwneud â marcio'n gysylltiedig â safon ieithyddol cyffredinol yr asesiadau, ac nid ydym yn derbyn canfyddiad yr Arholwr y diystyrwyd safon er mwyn denu myfyrwyr i astudio'r modiwl. Nid

Cardiff University  
McKenzie House  
30-36 Newport Road  
Cardiff CF24 ODE  
Tel Ffôn I +44(0)29 2087 9189  
[www.cardiff.ac.uk](http://www.cardiff.ac.uk)

*Prifysgol Caerdydd*  
*Tŷ McKenzie*  
*30-36 Heol Casnewydd*  
*Caerdydd CF24 ODE*  
Tel Ffôn I +44(0)29 2087 9189  
[www.caerdydd.ac.uk](http://www.caerdydd.ac.uk)

dyna yw ein nod, ond rydym yn croesawu'r awgrym i dynnu sylw at unrhyw gamgymeriadau er mwyn helpu'r myfyrwyr i ddatblygu, ond heb eu cosbi ymhellach. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym eisoes yn ei wneud yn yr adborth a gaiff y myfyrwyr wyneb yn wyneb – ac mae'n rhywbeth y gallwn ei gofnodi ymhellach hefyd. Fodd bynnag, mae angen cydbwysedd rhwng gallu myfyrwyr i ddysgu, datblygu a gwella eu hyder yn eu sgiliau newyddiadurool sylfaenol, a'u gallu ieithyddol.

3. Yn ogystal, tynnodd yr Arholwr sylw at y marcio dwbl, a'r cais am ragor o wybodaeth am y drafodaeth rhwng y marcwyr. Mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei gywiro ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.
4. Gan na chynhaliwyd y modiwl y llynedd – mae'r Arholwr yn nodi nad oedd dim i'w gymharu. Byddwn yn ystyried a fyddai darparu enghreifftiau Saesneg yn cynorthwyo'r broses hon yn y dyfodol, ond nid oes modiwl tebyg yn Saesneg, felly mae'n anodd gweld sut byddai hyn o help yn gyffredinol.
5. Rydym wedi nodi sylwadau'r Arholwr o ran llawlyfr y modiwl sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Rydym hefyd wedi nodi sylwadau'r Arholwr o ran derbyn dogfennau yn Gymraeg.

Gan nodi eich sylwadau ar Lawlyfr y Bwrdd Arholi, gallaf gadarnhau bod fersiwn Cymraeg ar gael, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd ar gyfer dechrau'r cylch nesaf o Fyrddau Arholi.

### **Mae'r Brifysgol yn falch o'ch sylwadau cadarnhaol, gan gynnwys:**

1. Eich nodiadau cadarnhaol ynghylch strwythur y rhaglen, safonau academaidd a'r broses asesu;
2. Eich canmoliaeth arbennig ar gyfer y gwahaniaethu rhwng tasgau asesu ar gyfer lefel 5 a lefel 6, yr asesiadau ymarferol ysgrifenedig a'r adborth ar asesiadau a roddir i fyfyrwyr.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn foddhaol, a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ar gyfer y rhaglen.

Er mwyn bodloni disgwyliadau Côt Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), bydd Adroddiad Blynyddol yr Arholwr Allanol a'r Ymateb hwn gan y Sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol, a byddant ar gael i'r holl fyfyrwyr a staff.

Drwy ddarparu Ymateb Sefydliad ffurfiol, nid yw'n fwriad gan y Brifysgol orfodi cyfathrebu uniongyrchol rhwng Ysgolion a'u Harholwyr Allanol. Caiff Ysgolion eu hannog i drafod unrhyw faterion manwl sy'n codi yn eu Hadroddiadau gyda'u Harholwyr Allanol, yn ogystal ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar ansawdd a safonau dyfarniadau, gan gynnwys newidiadau posibl i raglenni.

Cardiff University  
McKenzie House  
30-36 Newport Road  
Cardiff CF24 ODE  
Tel Ffôn I +44(0)29 2087 9189  
[www.cardiff.ac.uk](http://www.cardiff.ac.uk)

*Prifysgol Caerdydd*  
*Tŷ McKenzie*  
*30-36 Heol Casnewydd*  
*Caerdydd CF24 ODE*  
Tel Ffôn I +44(0)29 2087 9189  
[www.caerdydd.ac.uk](http://www.caerdydd.ac.uk)

Rydym yn hynod ddiolchgar i chi am eich sylwadau ac am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

Yn gywir,



Simon Wright  
Academic Registrar